



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Awyr Las
Blue Sky

Elusen GIG Gogledd Cymru
The North Wales NHS Charity

Diolch o galon i'r holl wneuthurwyr - ysgolion, colegau, busnesau, prifysgolion a selogion technoleg - sydd wedi bod yn cynhyrchu fisorau'n wirfoddol. Rydych yn anhygoel!

Digon o fisorau â'r Marc CE bellach ar gael i staff BIPBC

Fel y gwyddoch wrth gwrs, mae cannoedd o 'wneuthurwyr fisorau' ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys chi eich hun, wedi bod yn cynhyrchu fisorau o'u gwirfodd i helpu i amddiffyn gweithwyr allweddol yng Ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod Ymatebol COVID-19 heriol hwn.

Roedd BIPBC eisiau gweithio'n agos gyda'r gymuned gwneuthurwyr gwirfoddol i helpu i sicrhau bod staff BIPBC a gweithwyr allweddol eraill yn ein cymunedau yn gallu cael mynediad at fisorau o'r ansawdd gorau posibl, er mwyn sicrhau y byddai fisorau yn amddiffyn staff ac nid yn eu niweidio na chleifion chwaith. Cofrestrodd 81 o wneuthurwyr i ddarparu fisorau a wnaed yn wirfoddol fel y gallai fod hyder yn nyluniad, deunyddiau, gweithgynhyrchu a dadheintio fisorau cyn eu rhoi i'w defnyddio pan nad oedd digon o fisorau â'r Marc CE ar gael.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd BIPBC ac asiantaethau eraill yn ddibynnol arnoch, y gwneuthurwyr, oherwydd bod gwir angen y fisorau ychwanegol.

Rydym yn fodlon bod digon o fisorau â'r Marc CE ar gael bellach ar gyfer staff BIPBC. Nid oes angen cynhyrchu fisorau ychwanegol mwyach, ond bydd ein gwerthfawrogiad i'r holl wneuthurwyr yn amlwg am amser hir iawn i ddod. Diolch i chi am eich ymdrechion anhygoel, mae yna hefyd cronfa wrth gefn o'r fisorau hyn a wnaed yn wirfoddol yn barod, pe bai eu hangen.

O heddiw ymlaen, hoffem awgrymu eich bod yn rhoi eich 'offer i lawr' a dathlu'r hyn yr ydych wedi ei gyflawni ar y cyd.



Efallai y bydd angen eich cymorth eto yn y dyfodol

Rydym yn sicr y byddwch yn deall bod BIPBC bob amser wedi honni, lle bo hynny'n bosibl, y dylai BIPBC a'r holl asiantaethau eraill sy'n cyflogi gweithwyr allweddol rheng flaen yn caffael PPE wedi'i farcio â CE. Dim ond pan nad oedd PPE â'r Marc CE ar gael y dylid defnyddio PPE nad oedd â'r Marc CE. Dylai pob gweithiwr allweddol fod yn defnyddio fisorau â'r Marc CE bellach.

Mae BIPBC a'n partneriaid bellach yn gwybod bod rhwydwaith leol o wneuthurwyr fisorau posib ar gael. Pe bai'r galw fod yn fwy na'r cyflenwad eto, cysylltir yn uniongyrchol â'r gwneuthurwyr cofrestredig.

Dywedwch wrthym faint o fisorau sydd gennych ar hyn o bryd

Cysylltwch â ni i ddweud wrthym faint o fisorau sydd gennych. I wneud hyn, e-bostiwch: BCU.COVID19VoluntarySupportUnit@wales.nhs.uk. Byddwn yn trefnu casglu gyda chi cyn gynted â phosibl. Yna bydd yr holl fisorau yn cael eu cludo i M-Sparc yn Gaerwen (Ynys Môn) i dderbyn gwiriadau sicrhau ansawdd a diheintio, ac yna byddant ar gael ar gyfer unrhyw grwpiau o weithwyr allweddol sydd eu hangen. Os gallwch chi, efallai yr hoffech fynd â'ch fisorau yn uniongyrchol i'r man gollwng yn M-Sparc. Os dewiswch wneud hyn, cofiwch ddweud wrthym ymlaen llaw faint o fisorau rydych chi'n eu gollwng.

Helpwch ni i ddathlu Cymuned Gwneuthurwyr Gogledd Cymru

Yma yn BIPBC, hoffem ddangos ein bod yn ddiolchgar. Byddwch yn derbyn tystysgrif diolch drwy'r post o fewn y pythefnos nesaf. Bydd hefyd wahoddiad i chi fod yn rhan o fideo yr ydym yn ei greu fel rhan o ddangos ein gwerthfawrogiad i'r Gymuned Gwneuthurwyr.

Os hoffech gymryd rhan, anfonwch:

- Lun ohonoch eich hun, gyda neu heb fisor, yn codi bawd / sut bynnag yr hoffech.
- Fideo sydd ddim fwy na 10 eiliad gyda neges i weithwyr allweddol (yn Gymraeg neu'n Saesneg, neu'r ddau). Gallwch ddweud 'Croeso' / 'Gobeithio ein bod wedi eich helpu' / beth bynnag yr hoffech!

Anfonwch eich lluniau a'ch fideos i mewnflwch Facebook Awyr Las:

www.facebook.com/awyrlascharity



Ymholiadau gan Weithwyr Allweddol am PPE

Nid yw BIPBC yn gyflenwr PPE ar gyfer asiantaethau eraill, ond mae'n cydnabod pwysigrwydd helpu i sicrhau bod gweithwyr allweddol ledled Gogledd Cymru yn gallu cael mynediad at y PPE o'r ansawdd gorau un sydd ar gael.

Os ydych chi'n adnabod gweithwyr allweddol y tu mewn a'r tu allan i BIPBC sydd heb ddealltwriaeth o ba PPE sydd ei angen arnyn nhw neu o ble i ddod o hyd iddo, anogwch nhw i lenwi'r ffurflen ymholi. Bydd Cydlynnydd PPE Gwirfoddol BIPBC yn gallu ymateb i'w ymholiad. Dyma'r ffurflen: www.awyrlas.org.uk/ppe-enquiries-north-wales

Hac COVID-19

Nid oes galw mawr am fisorau mwyach fel yr oedd, ond mae yna ffyrdd eraill y gall Gwneuthurwyr barhau i wneud gwahaniaeth!

Dewch i fod yn rhan o Hac COVID-19, sy'n digwydd y mis hwn yng Ngogledd Cymru.

Gweler www.m-sparc.com/hackcovid am fwy o wybodaeth.

Diolch

Mae'r ffordd y mae unigolion, sefydliadau, busnesau a'r byd academiaidd wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd yn y cyfnod hwn yn anhygoel.

Diolch i chi eto am eich cymorth! Diolch i chi am feddwl am eich cymuned. Diolch i chi am amddiffyn eich GIG a'n staff.

Diolch eto am bopeth rydych chi wedi'i wneud!

**Dymuniadau gorau oddi wrth
Uned Cymorth Wirfoddol COVID-19 BIPBC**



**Awyr Las
Blue Sky**

Elusen GIG Gogledd Cymru
The North Wales NHS Charity



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board**

